



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys, yn adlewyrchu ar ei flwyddyn gyntaf yn y swydd.



"Flwyddyn ar ôl yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, rwyf wedi cymryd camau sylweddol tuag at wella'r gwasanaeth heddlu a chyflwyno gwell gwasanaethau ar gyfer cymunedau. "

Ers cychwyn ar ei swydd, rwyf wedi penodi Prif Gwnstabl newydd a thîm arweinyddiaeth newydd. Rwy'n ddiolchgar am ymateb y gweithlu a'r cymunedau wrth fynd ati i sefydlu'r math o Brif Gwnstabl sydd angen ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Prif Gwnstabl, Mark Collins, ac rydym wedi dechrau mynd i gyfarfodydd cymunedol gyda'n gilydd fel bod y cyhoedd yn cael cyfle i drafod materion a'u herio wyneb yn wyneb.



O ran cyllideb, rwyf wedi gweithio i sicrhau'r fargen ariannol orau ar gyfer Dyfed-Powys, ac rwyf wedi cwrdd â Gweinidog Plismona Prydain i drafod y fformiwla ariannu ar gyfer y dyfodol. Ni gymerais y penderfyniad i ofyn am gynnydd yn y praesept yn ysgafn, ond dilynais ymgynghoriad a bennodd fod ein cymunedau'n barod i dalu mwy am blismona.

Bydd y cynnydd yn y gyllideb yn fy ngalluogi i symud ymlaen â chynlluniau i ail-fuddsoddi a gosod TCC ledled ardal Dyfed-Powys. Hefyd, bydd yn fy ngalluogi i wella gwasanaethau a ddarperir i'n cymunedau mwyaf gwledig a gwella'r meysydd hynny a nodwyd gan archwiliadau AHEM yn ddiweddar er mwyn cael gradd fwy ffafriol.


Rwyf hefyd wedi:

- Buddsoddi yn yr Uned Seibrdroseddu
- Sicrhau 8 swyddog newydd ar gyfer diogelu pobl sy'n agored i niwed
- Buddsoddi £180,000 ar draws y pedair sir er mwyn cefnogi gwaith Tîmoedd Atal a Throseddau Ieuencid
- Cyhoeddi cynllun ariannu Cymunedol y Comisiynydd gyda £75,000 ar gael i grwpiau yn y gymuned

Ym mis Mawrth, lansiodd y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Diogelwch y preswylwyr a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys yw fy mlaenoriaeth fel Comisiynydd, a thrwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu, rwyf wedi gosod y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig ar gyfer cyflwyno ymagwedd gydlynol tuag at fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu pob gwasanaeth cyhoeddus, megis gostyngiad o ran cyllid, amrywiaeth gynyddol ein poblogaeth, a'r datblygiadau sydyn o ran technoleg. Rwy'n gweithio'n agos â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n effeithiol ac effeithlon o ran cadw pobl yn ddiogel, cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl i gyfiawnder. Gyda'n partneriaid, byddwn ni'n archwilio i gyfleoedd ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd er mwyn helpu i wneud ein cymunedau'n fwy diogel.



Mae Gwasanaeth Dioddefwyr a Thystion Goleudy yn enghraifft wych o wasanaeth a gomisiynydd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau, ac yn ddiweddar, agorodd ei linellau i aelodau o'r cyhoedd sydd fwyaf ein hangen – dioddefwyr a thystion troseddau. Mae'n wasanaeth annibynnol a gyd-leolir ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys. Mantais cyd-leoli'r gwasanaeth yw bod y tîm mewn gwell sefyllfa i gynorthwyo dioddefwyr â'u hymholiadau a datrys unrhyw anffodlonrwydd y mae dioddefwyr a thystion yn teimlo o ran y modd y mae'r achos yn mynd rhagddo.

Ers imi gael fy ethol, mae'r heriau sydd o'n blaenau wedi bod yn glir i mi. Mae'r heddlu wedi cymryd camau breision gyda chamerau fideo a wisgir ar y corff a thechnoleg symudol, ond mae dal gwaith i'w wneud er mwyn gwneud y gwasanaeth mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Blaenoriaethau:



- ◆ Cadw ein cymunedau'n ddiogel
- ◆ Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed
- ◆ Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol
- ◆ Cysylltu gyda chymunedau

“ Fel eich Comisiynydd, diogelwch yr holl breswylwyr a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys yw fy mlaenoriaeth. ”

Rwy'n glir ynglŷn â'm blaenoriaethau: cadw'n cymunedau'n ddiogel; diogelu'r rhai sy'n agored i niwed; diogelu'n cymunedau rhag bygythiadau difrifol; a chysylltu â'n cymunedau. Byddaf yn parhau i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif o ran cyflenwi'r rhain. Rwy'n hyderus y medrwn ddychwelyd i fod yn heddlu arweiniol yng Nghymru a Lloegr.

Diolch!



Dafydd Llywelyn

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys, Blwch Post 99,
Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF.

Rhif Ffôn: 01267 226 440

E-bost: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

Rydych yn derbyn yr ebost yma achos eich bod wedi dangos diddordeb i fod ar ein rhestr llythyru.

[Unsubscribe](#)